**Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder i Gomisiynydd y Gymraeg**

**Rhagfyr 2022**

**RHAGARWEINIAD**

**Gair am yr Adroddiad hwn**

1. Dyma Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn i Gomisiynydd y Gymraeg, a gyflwynir yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu ein perfformiad yn erbyn ein hymrwymiadau polisi yn y Cynllun Iaith yn ystod 2022.

**Gwybodaeth am Gynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn**

2. Rydym wedi ymrwymo i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Cynllun Iaith yn nodi sut y bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn rhoi'r ymrwymiad hwn ar waith wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

**Rheoli'r Cynllun Iaith**

3. Laurence Lee, Ail Ysgrifennydd Parhaol y Weinyddiaeth Amddiffyn, sy'n bennaf gyfrifol am gydymffurfedd cyfreithiol yr Adran â'r Cynllun Iaith. Rheolir y Cynllun Iaith ar ei ran gan dîm Stiwardiaeth Gwybodaeth Adran Ddigidol y Weinyddiaeth Amddiffyn.

**POLISÏAU A CHYNLLUNIAU**

**Hyrwyddwr Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn**

4. Comodôr yr Awyrlu Dai Williams yw Hyrwyddwr y Gymraeg ar ran y Weinyddiaeth Amddiffyn o hyd. Mae mewn sefyllfa dda i arwain y gwaith o ymgysylltu a chydymffurfio â'r Cynllun Iaith ar draws yr adran. Mae ei gysylltiadau cryf ag uwch randdeiliaid ledled Cymru yn ei alluogi i roi cyngor i ni ar yr effaith y gallai ein polisïau a'n prosiectau ei chael.

5. Fel siaradwr brodorol, mae Comodôr yr Awyrlu Dai Williams yn hanfodol i'r sesiwn misol *Amser Am Baned? / Time for a cuppa?* gyda Rhwydwaith Siaradwyr Cymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn, gan gadeirio'r grŵp ac annog cyfranogiad. Mae hefyd yn cadeirio cyfarfodydd chwarterol Rhwydwaith Siaradwyr Cymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn a Llysgenhadon y Weinyddiaeth Amddiffyn, gan arwain cyfranogwyr yn Gymraeg ac yn Saesneg drwy gydol y trafodion.

6. Mae Comodôr yr Awyrlu Williams yn fedrus o ran codi ymwybyddiaeth ar draws y Weinyddiaeth Amddiffyn ac mae wedi cyfeirio sawl uned at dîm y Cynllun Iaith er mwyn iddynt drafod cydymffurfio a gwasanaethau'r Cynllun Iaith. Mae ei rôl fel Swyddog Awyr Cymru yn rhoi cryn lawer o fri iddo ac yn ei alluogi i gyrraedd llawer iawn o bobl, ac mae'n manteisio'n dda ar hynny i fod yn eiriolwr aruthrol dros y Cynllun Iaith.

**Llysgenhadon Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn**

7. Ym mis Mehefin, gwnaethom gwblhau'r hyfforddiant i ddeuddeg o Lysgenhadon sy'n cynrychioli'r tri Gwasanaeth Arfog a'r Gwasanaeth Sifil yn y Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae enwau a gwybodaeth gyswllt Llysgenhadon y Cynllun Iaith ar gael ar Becyn Cymorth y cynllun ac ar rwydwaith cymdeithasol mentrau'r Weinyddiaeth Amddiffyn, Cyswllt Amddiffyn/Defence Connect. Mae gan bob un o'r Llysgenhadon lofnod e-bost Llysgennad Cynllun Iaith sydd wedi'i ddylunio'n arbennig. Mae'r Llysgenhadon yn cynnwys y rôl bwysig hon yn eu nodau perfformiad a'u hadolygiad blynyddol.

8. Mae'r Llysgenhadon eisoes wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran cynyddu ymwybyddiaeth ar draws meysydd Cyllideb Lefel Uchaf yr Adrannau, a thrwy hynny wedi cynyddu cydymffurfedd adrannau. Mae'r Llysgenhadon yn mynd i gyfarfodydd chwarterol gyda thîm y Cynllun Iaith a

Hyrwyddwr y Gymraeg yn y Weinyddiaeth Amddiffyn i rannu diweddariadau ac arferion gorau yn ogystal â chydweithio ar ddigwyddiadau sydd ar y gweill. Byddwn yn parhau i ddiweddaru ac adnewyddu hyfforddiant Llysgenhadon y Cynllun Iaith bob blwyddyn.

**Rhwydwaith Siaradwyr Cymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn**

9. Cafodd Rhwydwaith Siaradwyr Cymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn ei lansio'n llwyddiannus ar 5ed Ebrill 2022 gyda chyfarfod cyntaf yn cael ei ffrydio'n fyw o Gaerdydd.

10. Mae tîm y Cynllun Iaith yn hwyluso sesiynau *Amser am Baned? / Time for a cuppa?* Rhwydwaith Siaradwyr Cymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn bob mis. Mae'r sesiynau hyn yn boblogaidd iawn gan ein helpu i adeiladu cymuned gref a gweithgar o siaradwyr Cymraeg yn y Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae aelodau'r rhwydwaith wedi dweud bod y sesiynau misol yn rhywbeth y maent yn edrych ymlaen ato a'u bod yn cyfrannu'n gadarnhaol at eu lles. Mae aelodau'r rhwydwaith sy'n dysgu Cymraeg hefyd yn cael budd o gymryd rhan neu wrando ar y Gymraeg yn cael ei siarad am ddeng munud ar hugain ar bynciau sydd o ddiddordeb iddynt.

11. Mae tîm y Cynllun Iaith hefyd yn hwyluso cyfarfodydd chwarterol gyda siaradwyr allanol. Mae'r rhain yn cael eu hysbysebu'n fewnol ar fewnrwyd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn ogystal â'u rhaeadru i aelodau Rhwydwaith Siaradwyr Cymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn, er mwyn sicrhau bod unrhyw un yn yr adran yn gallu bod yn bresennol. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi bod o fudd mawr i'r Rhwydwaith, gan ysgogi llawer iawn o drafodaeth ystyriol yn ogystal â syniadau ar gyfer gweithgareddau a datblygiad yn y dyfodol.

12. Mae gan Rwydwaith Siaradwyr Cymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn safle Cyswllt Amddiffyn / Defence Connect sy'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd gan dîm y Cynllun Iaith gyda blog Hyrwyddwr Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn, eitemau newyddion o ddiddordeb, hysbysiadau am gyfarfodydd sydd ar y gweill yn ogystal â grwpiau trafod ar gyfer aelodau'r Rhwydwaith. Mae'r safle hwn yn cael ei safoni gan Lysgenhadon y Gymraeg ac mae'n cael ei gynnal yn Gymraeg ac yn Saesneg.

**Grŵp Cynllun Iaith Gymraeg Whitehall Gyfan**

13. Mae tîm y Cynllun Iaith a Hyrwyddwr Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn yn mynychu grŵp chwarterol Cynllun Iaith Gymraeg Whitehall Gyfan i rannu syniadau, arferion gorau ac i gysylltu â'n cymheiriaid yn Adrannau Eraill y Llywodraeth. Mae'r cynllun hwn yn cael ei arwain gan Swyddfa Cymru.

**DARPARU GWASANAETHAU A SAFONAU GWASANAETH**

**Pecyn Cymorth y Cynllun Iaith**

14. Rydym wedi lansio ac wedi bod yn diweddaru ac yn symleiddio Pecyn Cymorth y Cynllun Iaith yn gyson ar fewnrwyd y Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae Pecyn Cymorth y Cynllun Iaith ar gael i bawb yn y Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae'n cynnwys yr holl wybodaeth sy'n berthnasol i gydymffurfedd, pa gamau gweithredu a/neu asesiadau y mae'n rhaid eu cyflawni ynghyd â gwybodaeth gyswllt ar gyfer tîm y Cynllun Iaith a'r Llysgenhadon. Y dudalen yr ymwelwyd â hi fwyaf eleni yw'r dudalen 'Cais am Gyfieithiad' ac yna'r dudalen 'Sut mae Cydymffurfio'.

**Cyfieithu**

15. Rydym wedi gweld cynnydd sylweddol mewn ceisiadau a chymeradwyaethau cyfieithu. Mae hyn oherwydd gwaith codi ymwybyddiaeth Hyrwyddwr y Gymraeg, Llysgenhadon y Cynllun Iaith, aelodau Rhwydwaith Siaradwyr Cymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn, Pecyn Cymorth y Cynllun Iaith a gwaith allgymorth tîm y Cynllun Iaith.

16. Mae ein perthynas waith gadarnhaol gydag Uned Iaith Gymraeg Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi (HMCTS) yn parhau. Rydym wedi profi rhywfaint o oedi wrth ddarparu cyfieithiadau eleni oherwydd cynnydd nad oedd modd ei ragweld yn llwyth gwaith Uned Iaith Gymraeg HMCTS. Mae hyn wedi cael ei reoli'n dda gan yr Uned a'i hysbysu i ni mewn da bryd.

17. Rhwng mis Ionawr a mis Tachwedd 2022 rydym wedi hwyluso'r gwaith o gyfieithu dros 210,000 o eiriau i'r Gymraeg. Mae'r gwaith hwn wedi dod o amrywiaeth eang o ffynonellau; o Bobl a Hyfforddiant y Llynges Frenhinol yn y Weinyddiaeth Amddiffyn i'r Cyflymydd Amddiffyn a Diogelwch, i Gyfarwyddiaeth Gofod y Weinyddiaeth Amddiffyn, ac ar nifer o wahanol ffurfiau; o lyfrau gwaith STEM, i'r Strategaeth Gofod Amddiffyn, i dudalennau gwe.

**Y FLWYDDYN I DDOD: 2023**

18. Bydd Rhwydwaith Siaradwyr Cymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn yn ymuno â chydweithwyr yn y Lluoedd Arfog yn Sioe Frenhinol Cymru yn 2023 i ddangos y camau breision rydyn ni wedi'u cymryd i roi'r Cynllun Iaith ar waith. Rydym wedi cynnull gweithgor i weithio drwy fanylion cyfranogiad y Rhwydwaith.

19. Bydd tîm y Cynllun Iaith a Hyrwyddwr y Gymraeg yn cynnal cyfres o sesiynau allgymorth a hyfforddiant TLB ar y Cynllun Iaith yn y flwyddyn i ddod i wella ymwybyddiaeth ohono ac o'r offer a'r gefnogaeth sydd ar gael.

20. Mae tîm y Cynllun Iaith wedi dewis cynnal adolygiad cymheiriaid o'i bolisi, ei wasanaethau a'i berfformiad gydag adran arall yn Whitehall sydd mewn sefyllfa debyg fel arfer da a chyfle i ddatblygu a thyfu ymhellach.

21. Fel rhan o'r ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'r Cynllun Iaith, bydd tîm y Cynllun Iaith yn ceisio pennu cwrs Cymraeg deg awr i ddechreuwyr ar gyfer pob Prif Swyddog mewn unedau yng Nghymru. Byddwn yn ceisio gwneud hyn yn y cyfnod yn union cyn i unigolion ddechrau ar eu swyddi newydd yng Nghymru.

21. Mae tîm y Cynllun Iaith yn ystyried trefnu cynhadledd i Whitehall gyfan a rhanddeiliaid ar y Cynllun Iaith Gymraeg yn Hydref 2023 gyda siaradwyr a gweithdai.

**I GLOI**

22. Rydym yn dal i ymrwymo i'r Cynllun Iaith ac i barhau i wella a mireinio ein polisïau a'n gweithgareddau mewnol ac allanol. Rydym yn canolbwyntio ar ddatblygu a hyrwyddo'r Cynllun Iaith ar draws yr adran, ar dyfu a gwella ein gwasanaethau'n barhaus ac ar gynnig canllawiau o ansawdd uchel i holl staff y Weinyddiaeth Amddiffyn. Byddwn yn parhau i ddatblygu ac ymgysylltu â'r gymuned Gymraeg o fewn y Weinyddiaeth Amddiffyn. Fel rhan o'r llwybr datblygu hwn, byddwn yn parhau i gynnal perthynas waith agos â Chomisiynydd y Gymraeg a'i swyddfa.